

---

# YMATEB I BRYDERON DIOGELU

---



F1-DYDDIAD  
YR EGLWYS YNG NGHYMRU  
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

## Tabl cynnwys

Cyflwyniad .....	2
Sut i gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith .....	2
Ymateb i ddatgeliad o gam-drin .....	3
Codi pryderon am berson mewn swydd o ymddiriedaeth .....	3
Beth yw swydd o ymddiriedaeth? .....	4
Beth yw torri ymddiriedaeth? .....	4
Sut i ymateb i bryder am berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth o fewn yr Eglwys .....	5
Cofnodi a chadw cofnodion mewn achosion sy'n ymwneud â thorri ymddiriedaeth .....	7
Tynnu o'r swydd dros dro.....	7
Dyletswydd i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd .....	7
Rhoi gwybod am gam-drin nad yw'n ddiweddar .....	8
Lle mae'r cyflawnwr yn dal yn fyw .....	8
Pan fo'r cyflawnwr wedi marw neu'n anhysbys.....	9
Ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr .....	9
Gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol .....	10
Cefnogi Dioddefwyr a Goroeswyr .....	10
Cefnogi Gweithwyr .....	10
Ymdrin â chanlyniad datgelu mewn cymuned eglwys .....	11
Chwythu'r chwiban (adrodd cyfrinachol).....	13
Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd .....	13
Mynegi pryder .....	13
Sut y bydd yr Eglwys yn Ymateb.....	14
Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth .....	14
Rhannu gwybodaeth yn ddiogel.....	14
Ymateb i'r cyfryngau .....	15

+

## Ymateb i Bryderon Diogelu

Dylai pob amheuaeth, pryder, gwybodaeth, datgeliad neu honiad o gam-drin gael ei adrodd ar unwaith i Dîm Diogelu'r Dalaith yr Eglwys yng Nghymru neu, mewn argyfwng, i'r awdurdodau statudol.

---

Os oes gennych wybodaeth am sefyllfa ddiogelu lle mae plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg uniongyrchol neu angen sylw meddygol brys, ffoniwch y gwasanaethau brys ar 999 – PEIDIWCH AG OEDI.

Os credwch fod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg o niwed ond nad yw sy'n wynebu risg ar unwaith, ffoniwch adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.

---

### Cyflwyniad

Mae pawb sy'n gweithio i'r Eglwys, gan gynnwys clerigion, gweithwyr a gwirfoddolwyr, yn debygol o ddod i gysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg ac felly mae angen iddynt wybod sut i ymateb i bryder diogelu.

Dylai unrhyw un sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg, sy'n gweithio gyda rhieni neu ofalwyr, neu sy'n cael gwybodaeth am blant neu oedolion sy'n wynebu risg drwy unrhyw ffordd:

- Fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl cam-drin neu esgeulustod ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg
- Bod yn effro i'r ffactorau risg ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg sy'n gysylltiedig ag oedolion sy'n ofalwyr, camdrinwyr, neu ddarpar gamdrinwyr
- Bod yn effro i effaith unrhyw bryderon am gamdriniaeth neu niwed ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg
- Gwrando ac ymateb yn brydlon i bryderon, datgeliadau neu honiadau o gam-drin neu niwed
- Adrodd a chofnodi'r holl bryderon, datgeliadau neu honiadau diogelu

Gallai pryderon, datgeliadau neu honiadau diogelu ymwneud â rhywbeth sy'n digwydd yn awr, rhywbeth a allai ddigwydd yn y dyfodol, neu rywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol. Dylid trin pryderon, datgeliadau, neu honiadau o gam-drin yn y gorffennol (a elwir yn gam-drin diweddar neu hanesyddol) mor ddifrifol ag adroddiadau am gam-drin a allai fod yn digwydd yn awr.

Dylid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith am bob pryder diogelu.

### Sut i gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith

Dylid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith am bryderon, datgeliadau neu honiadau diogelu cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'n bwysig iawn na wneir unrhyw ymgais i ymchwilio i'r pryder, y

datgeliad na'r honiad cyn i'r wybodaeth gael ei rhannu â Swyddog Diogelu'r Dalaith. Dylid cymryd gofal wrth drafod y pryder, y datgeliad neu'r honiad gydag unrhyw un cyn neu ar ôl cyflwyno'r adroddiad, i ddiogelu cyfrinachedd a diogelu uniondeb y wybodaeth. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â sut y dylid rheoli'r pryder a phwy y dylid rhoi gwybod iddynt.

## Ymateb i ddatgeliad o gam-drin

Datgeliad yw pan fydd plentyn neu oedolyn yn rhannu ei brofiad o gam-drin neu wybodaeth am gam-drin y mae rhywun y mae'n ei adnabod yn ei ddiodef. Yn fwy anarferol, gallai plentyn neu oedolyn rannu ei fod yn achosi neu wedi achosi niwed i rywun arall. Mae rhywun sy'n rhannu gwybodaeth am niwed y maent wedi'i achosi yn fwy tebygol o fynd at rywun sy'n darparu cymorth bugeiliol, megis clerig neu weinidog lleyg. Mae'r ymateb cychwynol i ddatgeliad o unrhyw fath yn bwysig iawn oherwydd efallai mai dyma'r unig adeg y mae'r plentyn neu'r oedolyn yn siarad am y cam-drin.

Os yw plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn dweud wrthyh ei fod ef neu blentyn neu oedolyn arall sy'n wynebu risg yn cael ei gam-drin:

- Dangoswch iddo eich bod wedi clywed yr hyn mae wedi'i ddweud, a'ch bod yn cymryd ei honiadau o ddifrif (nid yw hyn o reidrwydd yr un fath â chredu)
- Rhaid osgoi dangos sioc neu anghrediniaeth
- Dylech ei annog i siarad ond peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol (mae'n iawn gwirio eich bod wedi deall yr hyn a ddywedwyd wrthyh ac i ofyn cwestiynau agored na ellir eu hateb "ie" neu "na", megis pwy, beth, ble, pryd)
- Peidiwch â thorri ar ei draws pan fydd yn cofio digwyddiadau arwyddocaol
- Peidiwch â gofyn iddo ailadrodd y digwyddiad
- Eglurwch pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth
- Peidiwch ag addo cadw'r hyn a ddywedwyd wrthyh yn gyfrinachol neu'n gudd. Nid bradychu ymddiriedaeth yw adrodd am bryderon
- Peidiwch â cheisio ei archwilio am anafiadau neu dynnu lluniau neu recordiadau fideo
- Ysgrifennwch yr hyn a ddywedwyd wrthyh cyn gynted ag y gallwch, gan ddefnyddio union eiriau'r plentyn neu'r oedolyn os yn bosibl, a gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol
- Cynorthwytch yr unigolyn i gysylltu â meddyg teulu neu ag ysbyty os oes angen cymorth meddygol
- Peidiwch ag ymchwilio i'r mater na siarad â thystion posibl
- Peidiwch â wynebu'r camdriniwr(wyr) honedig
- Sicrhewch fod eich pryderon yn cael eu hadrodd ar unwaith
- Peidiwch ag oedi

## Codi pryderon am unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth

Mae'n hysbys bod y rhan fwyaf o gam-drin plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael ei gyflawni gan bobl y maen nhw'n eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

## Beth yw swydd o ymddiriedaeth?

Mae “swydd o ymddiriedaeth” yn derm cyfreithiol sy’n cyfeirio at rolau a lleoliadau penodol lle mae oedolyn mewn cysylltiad rheolaidd ac uniongyrchol â phlant neu oedolion sy’n wynebu risg. Mae enghreifftiau o swyddi o ymddiriedaeth yn cynnwys athrawon, gweithwyr gofal, gweithwyr cyfiawnder ieuencid, gweithwyr cymdeithasol a meddygon.

Mae'r Eglwys yn ystyried pob gweithiwr eglwys gan gynnwys clerigion, gweithwyr a gwirfoddolwyr fel unigolion sy'n gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth o fewn yr eglwys ac felly disgwylir iddynt gadw at y polisi a'r canllawiau diogelu.

## Beth yw torri ymddiriedaeth?

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi'i diwygio yn 2022 i ehangu'r ddeddfwriaeth Swyddi Cyfrifol i gynnwys yr unigolion hynny sy'n coetsio, addysgu, hyfforddi, goruchwyllo neu gyfarwyddo mewn camp neu grefydd.

Felly, mae bellach yn erbyn y gyfraith i rywun mewn swyddi gyfrifol mewn cyd-destun eglwys i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn yn ei ofal, hyd yn oed os yw'r plentyn hwnnw dros oed cydsynio (16 neu hŷn).

Felly, mae gweithgarwch rhywiol rhwng oedolyn a phlentyn dan 18 oed, os yw'r oedolyn hwnnw mewn swydd gyfrifol mewn lleoliad eglwys, yn torri rheolau'r swydd honno ac yn erbyn y gyfraith.

Bydd yn cael ei drin fel pryder diogelu difrifol a bydd yn cael ei gyfeirio at yr awdurdodau statudol. Os yw'r oedolyn dan sylw wedi ei ordeinio, byddai trosedd o'r fath yn arwain at gŵyn am weithredu dan driwlynlys disgyblu'r Eglwys yng Nghymru.

Byddai ymddygiad o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- methu â chadw at bolisiau a gweithdrefnau diogelu gan gynnwys methu ag adrodd am bryderon diogelu mewn modd amserol neu atal, annog pobl i beidio, neu fel arall atal eraill rhag codi unrhyw bryderon diogelu a allai fod ganddynt.
- cyfeillio plentyn, neu oedolyn sy'n wynebu risg drwy ei gymell neu ei orfodi gyda chymhellion fel rhoddion, trîts, arian neu gyffuriau, neu ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'i deulu neu ddefnyddio'r rhyngwyd ac ati i ddatblygu perthynas er mwyn ei gam-drin neu ei ecsbloetio.
- cymryd rhan mewn perthynas rywiol agos â pherson ifanc dros 16 oed a dan 18 oed.
- derbyn rhoddion o arian neu eitemau o werth er budd personol.
- datgelu unrhyw wybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag eraill heb ganiatâd e.e., cyfeiriadau, (personol, e-bost neu messenger), rhifau ffôn neu fanylion banc, oni bai bod hwn yn fater diogelu.
- anfon negeseuon e-bost neu bostio negeseuon ar unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol neu fel arall ddefnyddio TGCh mewn modd sy'n aflonyddu, bygwth, dychryn, bwlio, bychanu neu gam-drin unrhyw unigolyn neu grŵp.

Gall y pryderon ymddangos yn gymharol fach megis methu â chadw at y polisi a'r canllawiau diogelu

neu efallai y bydd gweithred glir sy'n gyfystyr â throedd.

Mae'n bwysig nad yw camau gweithredu unigol yn cael eu camddehongli, waeth pa mor dda oedd eu bwriad. Mae cynnig gofal a chymorth priodol yn eithriadol o bwysig. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth wrando neu gynnig cyngor i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg gan gynnwys dewis lleoliad a lle priodol ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

Dylid cymryd gofal wrth gynnal sgysiau preifat neu agored a dylid eu hosgoi gyda phlant. Yn anad dim, ni ddylech ffurfio perthynas sy'n camddefnyddio'r ymddiriedaeth sydd ymhlyg yn y rôl a roddwyd gan yr eglwys.

Gall honiad neu bryder ymwneud â gweithgareddau o fewn yr eglwys, y cartref neu leoliad arall. Gall pryderon fod yn gyfredol neu ynghylch rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'n bwysig cofio y gallai digwyddiadau yn y gorffennol fod yn berthnasol i ddiogelwch plant neu oedolion sy'n wynebu risg yn y presennol. Felly, waeth pryd yr honnir bod y digwyddiad wedi digwydd, dylid dilyn yr un weithdrefn, a dylid cyflwyno'r pryder ar unwaith i Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â'r awdurdodau statudol ym mhob achos lle honnir bod person sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg wedi:

- Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- Cyflawni trosedd o bosibl yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg
- Ymddwyn tuag at blentyn, plant, neu oedolion sy'n wynebu risg mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion

Gall fod yn anodd penderfynu beth all ddod o dan y categori "anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg". Dylai'r cyflogwr ystyried a yw testun yr honiad neu'r pryder wedi:

- Bod yn destun gweithdrefnau troseddol sy'n dangos risg o niwed i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- Achos niwed neu niwed posibl i blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg ac mae risg yn yr amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu
- Torri neu barhau i fynd yn groes i Bolisi a Gweithdrefnau diogelu eu hasiantaeth
- Methu â deall neu gydymffurfio â'r angen am ffiniau personol a phroffesiynol clir yn y gweithle
- Ymddwyn mewn ffordd, yn eu bywyd personol, a allai roi plant ac oedolion mewn risg o niwed
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n tansilio'r ymddiriedaeth a osodwyd ynddynt yn rhinwedd eu swydd
- Plant sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
- Yn meddu ar gyfrifoldebau gofalu am oedolyn sy'n destun Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion

[Sut i ymateb i bryder am berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth o fewn yr Eglwys](#)

Os oes unrhyw un yn amau bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn cael ei gam-drin neu'n

amau gweithiwr arall o ddefnyddio ei swydd o ymddiriedaeth yn amhriodol, yna mae yna ddyletswydd i roi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted â phosibl. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn rhoi cyngor a chymorth, gan gynnwys a ddylid rhoi gwybod i'r awdurdodau statudol am y pryder. Os yw'r unigolyn yn poeni am roi gwybod am ei bryderon am ei fod yn ofni'r canlyniadau, dylai ddefnyddio'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban a fydd yn rhoi amddiffyniad iddo.

Mae pryderon weithiau'n codi yng nghyd-destun lleoliad teuluol gweithiwr yr eglwys ei hun, er enghraifft lle mae rhywun wedi cael gafael ar ddelweddau cam-drin plant yn ei gartref neu wedi cam-drin ei blentyn neu ei blant ei hun mewn rhyw ffordd. Bydd amgylchiadau o'r fath yn effeithio ar sut y gall gweithiwr yr eglwys gyflawni ei rôl o fewn yr eglwys. Mewn achosion o'r fath, bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol a'r heddlu. Ar yr un pryd, bydd esgob yr esgobaeth yn sicrhau bod gofal bugeiliol priodol yn cael ei roi ar waith i gefnogi gweithiwr yr eglwys a'i deulu.

Os yw'r pryder yn ymwneud ag amddiffyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg, yna dylid dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt a'r canllawiau arferion gorau.

Beth bynnag yw'r pryderon, rhaid i'r person sy'n derbyn y wybodaeth ar ba ffurf bynnag drafod y mater gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os nad yw'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol ag amddiffyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu os nad yw'n glir, yna dylid trafod y mater gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith yr un fath.

Os nad yw'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio i'r heddlu neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu bodloni, efallai y bydd pryderon yr un fath bod ymddygiad yr oedolyn wedi bod yn amhriodol a bydd hyn yn cael ei atgyfeirio at sylw Panel Diogelu'r Dalaith er mwyn derbyn cyngor. Gall y cyngor hwnnw gynnwys bod y mater yn peri digon o bryder i gyfiawnhau cyfeirio at Gorff Rheoleiddio megis Estyn, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yn achos clerigion lle mae ymchwiliad diogelu wedi pennu eu bod wedi camddefnyddio neu fanteisio ar eu swydd o ymddiriedaeth, caiff y mater ei gyfeirio at esgob yr esgobaeth a gall gynnwys ymchwiliad pellach yn unol â rheolau disgyblu'r Eglwys yng Nghymru. Yn achos gweithwyr, bydd y mater hwnnw'n cael ei gyfeirio at gyflogwr dynodedig yr eglwys lle y bydd camau priodol yn unol â'u gweithdrefn ddisgyblu eu hunain yn cael eu cymryd. Yn achos gwirfoddolwyr, gallant benderfynu rhoi terfyn ar eu gwasanaeth, yn dilyn pryder neu honiad amdanynt. Waeth beth fydd yn digwydd, dilynir cyngor Panel Diogelu'r Dalaith lle mae angen cyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr unig eithriad i rannu gwybodaeth â Swyddogion Diogelu'r Dalaith yw lle mai'r Swyddogion Diogelu'r Dalaith yw testun yr honiadau neu'r pryder neu eu bod yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cyfeirio'r mater at y Cyfarwyddwr Diogelu.

Rhaid cadw at y canlynol bob amser:

- I. Ni ddylai'r person y codwyd pryderon amdano gael ei hysbysu na'i rybuddio am y ffaith bod pryderon wedi'u hadrodd hyd nes y penderfynir naill ai:
  - nad oes angen atgyfeiriad i'r awdurdodau statudol

Neu

- bod caniatâd penodol i gysylltu â'r person wedi'i gael gan yr awdurdodau statudol.

Yn y naill achos neu'r llall, ni ddylid cysylltu â'r person sy'n peri pryder heb gytundeb datganedig Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Rhaid darparu'r holl gofnodion a'r nodiadau a gymerwyd i Swyddog Diogelu'r Dalaith (neu Ysgrifennydd y Dalaith os yw'r pryderon yn ymwneud â Swyddog Diogelu'r Dalaith) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac os yw'n bosibl, erbyn y diwrnod gwaith nesaf.

### Cofnodi a chadw cofnodion mewn achosion sy'n ymwneud â thorri ymddiriedaeth

Pan gynhelir ymchwiliad statudol ynghylch oedolyn mewn swydd o ymddiriedaeth a bod yr ymchwiliadau'n dod i'r casgliad bod yr oedolyn yn torri'r ymddiriedaeth honno, bydd y cofnodion yn cael eu cadw am 75 mlynedd.

### Atal o'r swydd dros dro

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw aelod o gymuned yr eglwys y gwyddys ei fod wedi troseddu yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sydd fel arall sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n golygu bod ymddiriedaeth wedi'i thorri yn cael ei gefnogi'n briodol, ei oruchwylio'n briodol a bod unrhyw atgyfeiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gweithredu'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau cyfredol perthnasol y llywodraeth mewn perthynas â phob honiad o gam-drin plant, gan gynnwys honiadau o ddelweddau o gam-drin plant, nawr ac yn y gorffennol.

O ran cyngor Panel Diogelu'r Dalaith neu'r awdurdodau statudol, efallai y bydd yn ofynnol i'r esgob esgobaethol neu gyflogwyr eraill yr eglwys atal gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr wrth aros am ymchwiliad a thrwy gydol unrhyw ymchwiliad.

Mae atal dros dro yn weithred niwtral i reoli risg neu er mwyn caniatáu i'r ymchwiliad gael ei gynnal

### Dyletswydd i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw cofnodion o'r rhai a allai fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg oherwydd ymddygiad yn y gorffennol. Sefydlwyd y Gwasanaeth o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac mae'n uno'r swyddogaethau a wnaed yn flaenorol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle mae yn le i greu bod unigolyn wedi achosi niwed i blant neu oedolion sy'n wynebu risg neu fod perygl iddo wneud hynny yn y dyfodol.



Mae'n anghyfreithlon cyflogi'n fwriadol (naill ai mewn swydd â thâl neu mewn swydd ddi-dâl) unrhyw un i gymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir gyda grŵp y mae wedi'i wahardd rhag gweithio gyda nhw.

## Rhoi gwybod am gam-drin nad yw'n ddiweddar

Ar ryw adeg mae'n debygol y bydd offeiriad, neu berson arall sy'n ymwneud ag addoliad neu ofal bugeiliol, mewn sefyllfa lle bydd rhywun yn datgelu camdriniaeth a ddigwyddodd iddynt fel plentyn. Fel gydag arferion gorau wrth glywed datgeliad gan blentyn mae'n bwysig gwrando'n astud heb farnu.

Gall y sawl sy'n gwneud y datgeliad ddweud wrthyhch nad yw am i'r wybodaeth hon fynd ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gorau a gall cadw'r datgeliad yn gyfrinachol beryglu eraill. Felly, rhaid trosglwyddo'r wybodaeth a ddatgelir i Swyddog Diogelu'r Dalaith fel y gellir cymryd camau gweithredu.

## Os yw'r cyflawnwr yn dal yn fyw

Pan fo unigolyn yn datgelu camdriniaeth nad yw'n ddiweddar a bod y cyflawnwr yn fyw o hyd, dylid gofyn am gyngor a chymorth gan Swyddog Diogelu'r Dalaith fel y gellir annog dioddefwr neu oroeswr y cam-drin i roi gwybod i'r heddlu oherwydd gallai'r person hwn fod yn cam-drin plant neu oedolion sy'n wynebu risg o hyd.

Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â'r heddlu hyd yn oed heb gydsyniad yr oedolyn sydd wedi datgelu'r gamdriniaeth nad yw'n ddiweddar, os yw'n ymddangos bod hyn yn angenrheidiol i amddiffyn plant.

Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cymryd cyfrifoldeb am gysylltu â'r heddlu a bydd yn rhoi manylion y dioddefwr neu'r goroeswr a'r cyflawnwr iddynt. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cynghori'r heddlu ynghylch a yw'r dioddefwr neu'r goroeswr wedi cydsynio i'r datgeliad ai peidio. Os credir bod pryderon iechyd neu ddiogelwch i'r dioddefwr yn sgil datgelu ei enw, dylid mynd i'r afael â hyn gyda'r heddlu. Fodd bynnag, dylid cofio y gall yr heddlu fynnu bod ei hunaniaeth yn cael ei datgelu drwy orchymyn llys os ydynt o'r farn bod y wybodaeth hon yn drech na'r risgiau eraill a nodwyd.

Lle bynnag y bo modd, dylid parchu dymuniadau a theimladau'r sawl sy'n gwneud y datgeliad. Gall gorfodi rhywun i roi gwybodaeth yn erbyn ei ewyllys arwain at dynnu'r honiad yn ôl ac felly mae'n wrthgynhyrchiol.

Mae'n bwysig sicrhau, pan fo datgeliadau'n honni gweithgarwch troseddol, a/neu fod risg barhaus o niwed sylweddol i'r dioddefwr neu'r goroeswr, plentyn neu oedolyn, bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r heddlu ar unwaith. Os nad yw'r dioddefwr neu'r goroeswr yn dymuno siarad â'r heddlu, mae'n annhebygol iawn y bydd yr heddlu'n gorfodi cyswllt pan fydd yn gwybod nad yw'r person am i hyn ddigwydd. Rôl yr heddlu yw penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r wybodaeth, hynny yw a ddylid ei nodi er gwybodaeth neu ymchwilio iddi.

## Pan fo'r cyflawnwr wedi marw neu'n anhysbys

O dan yr amgylchiadau hyn, dylid annog y dioddefwr neu'r goroeswr i roi'r wybodaeth y mae'n ei gwybod am y cyflawnwr, a chaiff hyn ei throsglwyddo i'r heddlu. Mae'n bwysig i'r heddlu gael y wybodaeth hon er bod y person wedi marw oherwydd gallai fod yn gysylltiedig â rhwydwaith ehangach o ddioddefwyr ac ymchwiliadau parhaus eraill.

## Ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr

Mae cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr yn bwysig i'r Eglwys yng Nghymru, yn enwedig lle credir bod y gamdriniaeth neu'r niwed wedi digwydd yn yr eglwys.

Gellir cyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at Fannau Diogel<sup>1</sup> neu Lwybrau Newydd<sup>2</sup> lle mae cymorth arbenigol annibynnol ar gael.

Mae'r ymdeimlad o wella o boen a thrawma cam-drin yn bwysig i bobl sydd wedi cael eu cam-drin ac mae gan y rhai sy'n ceisio gweinidogaethu ochr yn ochr â nhw rôl bwysig bosibl i'w chwarae o ran darparu cymorth yn hyn o beth. Mae taith pob unigolyn yn unigryw, a bydd y pethau sy'n bwysig, sy'n eu helpu ac sy'n rhoi gobaith a chynhaliadaeth iddynt yn wahanol ym mhob achos.

Mae rhai dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth wedi profi trawma pellach pan fyddant wedi gofyn am gymorth ar eu taith tuag at wellhad. Mewn rhai achosion, ac o bosibl gyda'r bwriadau gorau, mae pobl mewn eglwysi wedi ceisio gorfodi gweddïau neu ddefodau iacháu ar y sawl sy'n ceisio cymorth. Mae gorfodi unrhyw beth neu gamgymryd cydweithrediad am gydsyniad gwybodus yn amhriodol bob amser, mae'n dangos diffyg tosturi a dealltwriaeth ac mae ganddo'r potensial i ail-achosi trawma i'r unigolyn. Nid yw'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ganddynt reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddynt, sut y gellid cyffwrdd â hwy a chan bwy. Ar adegau prin, mae gweithredoedd cam-drin pellach hefyd wedi digwydd gan y person sy'n ceisio cynnig gofal neu wellhad.

Fodd bynnag, i lawer mae gan yr eglwys rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu dioddefwyr a goroeswyr i brosesu a deall yr hyn sydd wedi digwydd iddynt a chefnogi eu taith tuag at wellhad. Rhaid cymhwyso arfer da mewn gofal bugeiliol a chanllawiau ym maes diogelu i bob sefyllfa lle cynigir gweddi am iachâd, arferion iacháu a gweinidogaeth waredigaeth ym mywyd yr eglwys. Mae angen i ansawdd gofal bugeiliol, ymddygiad personol a gweinidogaeth o dan yr amgylchiadau hyn fod o'r safon uchaf a dilyn egwyddorion arferion gorau y cytunwyd arnynt.

Weithiau, mae'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin, o fewn cyd-destun eglwys, wedi cael eu hannog i faddau'n ddiatom fel pe bai hynny yw'r peth iawn i'w wneud. Mae rhai arweinwyr Cristnogol hefyd wedi awgrymu'n benodol neu ymhlyg fod dioddefwr neu oroeswr camdriniaeth wedi methu mewn rhyw ffordd os nad yw'n maddau i'w gamdriniwr. Mae hyn yn adlewyrchu diwinyddiaeth wael, mae'n arfer gwael iawn ac nid yw ond yn rhoi mwy o drawma i'r unigolyn. Mae maddeuant, fel taith unigolyn tuag at wellhad, yn fater personol. Mater i'r unigolyn dan sylw yn unig yw a yw'n dewis maddau i'w gamdriniwr ai peidio ac ni ddylid ei farnu na'i ystyried yn ddiffygiol, beth bynnag fo'i benderfyniad. I rai, bydd yn agwedd bwysig ar y broses o wella, gall ddod â heddwch iddynt ac

---

<sup>1</sup> [Mannau Diogel](#)

<sup>2</sup> [Llwybrau Newydd](#)

ymdeimlad o roi diwedd ar rywbeth. I eraill, ni fyddant yn teimlo bod rhaid iddyn nhw faddau. Gallant, beth bynnag, deimlo nad yw'r camdriniwr wedi dangos edifeirwch ac na ellir maddau iddo neu iddi, neu nad mater iddyn nhw yw maddau, ond mater i Dduw.

Beth bynnag fo agwedd y dioddefwr neu'r goroeswr at faddeuant, dylai dderbyn tosturi a chefnogaeth beth bynnag fo'i ddewis unigol.

Byddwch yn ymwybodol o anghenion dioddefwyr a goroeswyr i gwrdd i ffwrdd o amgylchedd sy'n gysylltiedig ag eglwys a dylid ystyried y dewis o ble i ddatgelu yn ofalus.

## Gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol

Mae gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol yn wahanol i gwrs neu gymorth therapiwtig. Er y gall y rhain weithio ochr yn ochr â'i gilydd, mae'n bwysig bod cwnsela'n cael ei ddarparu gan y rhai sydd â chymwysterau priodol. Os honnir mai aelod o'r eglwys sydd wedi cam-drin, yna dylid trafod hyn gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith a fydd yn gallu helpu i sicrhau bod y cymorth mwyaf addas yn cael ei roi i'r dioddefwr neu'r goroeswr.

Dylai'r rhai sy'n cynnig gofal bugeiliol a chymorth ysbrydol i ddioddefwr neu oroeswr drafod hyn gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith i sicrhau bod ffiniau mewn perthynas â'r mater dan sylw, cyfrinachedd a hyd y sgwrs yn cael eu hystyried er mwyn rheoli'r disgwyliadau a diwallu anghenion yr unigolyn sy'n ceisio cymorth. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r datgeliad sydd wedi'i wneud ym maes y llys, neu'n debygol o fod ym maes y llys.

## Cefnogi Dioddefwyr a Goroeswyr

Pan ofynnir i ddioddefwyr a goroeswyr gymryd rhan mewn prosesau mewnol megis rhoi tystiolaeth mewn tribiwnlysoedd, mae'n bwysig eu bod yn cael cynnig cymorth ar bob lefel. Os gofynnir iddynt fynychu tribiwnlys, dylid rhoi cyfle iddynt fynd â chefnogwr gyda hwy a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dylid eu diogelu rhag cyswllt uniongyrchol â'u camdriniwr neu gamdriniwr honedig mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath, oni bai eu bod yn gofyn yn benodol fel arall, ac os felly rhaid rheoli'r sefyllfa'n ddiogel ac yn sensitif.

Dylai anghenion lles dioddefwyr a goroeswyr gael y sylw pennaf drwy gydol y prosesau hyn a dylid trafod eu hanghenion o'r dechrau.

## Cefnogi Gweithwyr

Mae gan yr eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinigogaeth fugeiliol sensitif i bawb sy'n ymwneud ag achosion o gam-drin. Pan fydd diogelwch yr unigolyn wedi'i sicrhau, mewn achos o amheuaeth o gam-drin, mae'n hanfodol fod yr eglwys yn creu strwythurau lle gellir cynghori a chefnogi gweithwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn dyst i niwed neu y datgelwyd camdriniaeth iddynt. Mae angen sgiliau i ddarparu gweinigogaeth fugeiliol ac mae'n waith cymhleth a heriol ac ni ddylid tanbriso'r straen o ddarparu hyn dros gyfnod estynedig, megis mewn achos llys. Bydd angen cymorth ar y rhai sy'n gwneud hyn, ac efallai cyngor proffesiynol, arweiniad ac o bosibl cwnsela, a dylai hyn fod ar gael os bydd angen.

## Ymdrin â chanlyniad datgelu mewn cymuned eglwys

Yn dilyn datgelu bod clerig neu berson llewg cyfrifol mewn plwyf wedi bod yn gyfrifol am gam-drin plant yn rhywiol, mae'r effaith y gall hyn ei chael ar y gynulleidfa yn sylweddol. Nid yn unig y bydd yn rhaid iddynt ymdopi â pherson pwysig o fewn cymuned eu heglwys yn gorfod gadael, ond hefyd effaith hyn ar y person nesaf a benodir i wneud y swydd honno a sut y gallai aelodau'r gynulleidfa wella a thyfu o'r profiad.

Gellir cymharu'r broses y mae cynulleidfa'n mynd drwyddi ar ôl tor ymddiriedaeth o'r fath i brofedigaeth. Bydd sioc gychwynnol ac yna chwilio a cheisio rhesymu, penbleth yna derbyn yn y pen draw.

Bydd ymateb cychwynnol aelodau unigol o'r gynulleidfa yn amrywio yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Rôl y person yn yr eglwys.
- Faint o ymddiriedaeth a oedd yn rhan annatod o rôl y person hwnnw.
- I ba raddau yr oedd yr aelod o'r gynulleidfa yn derbyn ffeithiau'r achos.
- A oedd yr aelod o'r gynulleidfa mewn cysylltiad â'r dioddefwr neu â'r clerig a droseddodd.
- Perthynas yr aelod â'r clerig. Er enghraifft, a oedd wedi trafod materion personol â'r clerig, ai'r clerig a oedd wedi ei briodi neu ei phriodi, neu a fu'n rhan o ddigwyddiadau eraill. Neu a oedd y clerig yn rhywun a dderbyniodd ei gyffes?
- Diwinyddiaeth ac arweinyddiaeth y person.
- I ba raddau yr oedd yr aelod yn ddibynnol ar y clerig.
- A oedd gan yr aelod unrhyw amheuaeth bod rhywbeth o'i le ac felly bod ganddo deimladau o euogrwydd.
- Y ffordd y cafodd y cam-drin/camymddwyn ei gyfleu i'r gynulleidfa.
- Pa mor agos oedd plant yr aelod at y clerig.
- Oedran a gwerthoedd yr unigolyn.
- Ei hanes ei hun o gam-drin neu gamymddwyn.

Gallai'r teimlad cychwynnol fod yn ddicter, dadrithiad, anghrediniaeth, cywilydd a/neu dristwch.

Gall rhai o'r effeithiau a welir yn y gynulleidfa gyfan gynnwys:

- Colli egni.
- Diffyg ymddiriedaeth mewn arweinwyr yn parhau dros amser.
- Ymraniadau o fewn y gynulleidfa.
- Rhai aelodau o'r gynulleidfa yn tynnu yn ôl naill ai o swyddi o ymddiriedaeth neu'n gyfan gwbl.
- Tynnu cymorth ariannol yn ôl.
- Dictter, efallai tuag at faterion digyswllt.
- Cynllwyn o dawelwch am y digwyddiad (a ystyrir yn amddiffyn y troseddwr neu'r dioddefwr)
- Anobaith ynghylch dyfodol y gynulleidfa.
- Beio ac ystumio cyfrifoldeb am y digwyddiad i rywle arall, fel yr esgobaeth.

- Trafferth gwneud penderfyniadau arferol ac angenrheidiol.

Os nad yw'r gynulleidfa wedi mynd drwy broses o adfer a gwella, gall yr elfennau hyn barhau dros amser a dod yn fwy parhaol. Gallant ymddangos yn ddigyswllt â'r digwyddiad trawmatig penodol. Gall hyn achosi anhawster mawr i'r periglor nesaf a benodir, yn enwedig os nad yw wedi cael ei friffio'n llawn.

Dylid ystyried penodi gweinidog am gyfnod cyfyngedig yn y sefyllfa hon. Person profiadol ond cefnogol sy'n gallu dangos aeddfedrwydd ysbrydol, ffiniau iach a dal y gynulleidfa mewn lle diogel wrth iddynt ddod i delerau ac i dderbyn yr hyn sydd wedi digwydd.

Dylid ceisio cefnogaeth Swyddogion Diogelu'r Dalaith, a rhoi cynllun ar waith gydag uwch glerigion eraill yn yr esgobaeth honno i ymdrin yn sensitif ac yn broffesiynol â'r sefyllfa.

Bydd angen i'r tîm gyfarfod yn rheolaidd yn ystod ymchwiliad i gamdriniaeth. Bydd angen sicrhau bod anghenion y gynulleidfa yn cael eu monitro. Mae'n anochel bod lefel uchel o gyfrinachedd yn cael ei chynnal yn ystod y cam ymchwilio. Mae angen i'r rhai sy'n dal unrhyw wybodaeth gael eu cefnogi gan uwch berson o fewn yr esgobaeth.

Cyn gynted â phosibl a phan fydd gwybodaeth ar fin dod yn gyhoeddus, mae angen dweud wrth y gynulleidfa am y ffeithiau, cyn belled ag y bo modd a heb nodi unrhyw ddiodeffwr. Y ffordd orau o wneud hyn yw mewn cyfarfod plwyf lle gall uwch aelodau o'r esgobaeth a'r tîm diogelu fod yn bresennol gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith o brosesu'r wybodaeth.

Dylai'r gynulleidfa gael cyfle i fynegi eu teimladau; bydd y rhain yn gwrthdaro ond ni ddylid eu herio. Yn ogystal, dylid caniatáu iddynt drafod sgil-ffeithiau'r digwyddiad.

Gallai'r gynulleidfa drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol megis pa gyfarfodydd eraill sydd eu hangen arnynt. Beth yw anghenion ysbrydol a bugeiliol y gynulleidfa ar hyn o bryd ac a oes angen cymorth unigol ar rai, er enghraifft rhywun sydd wedi cael ei gam-drin ei hun yn y gorffennol ac a oedd yn credu ei fod wedi dod i le diogel?

Mae'n debyg y bydd y gynulleidfa yn ei chael hi'n ddefnyddiol rhoi'r digwyddiad yn ei gyd-destun, er enghraifft dysgu am droseddau rhyw, camddefnyddio pŵer, meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio. Gallai diodeffwr neu oroeswr camdriniaeth (nid y diodeffwr neu'r goroeswr yn yr achos perthnasol) a throseddwr (nid y clerig neu'r swyddog yn yr achos perthnasol) helpu pobl i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd o bosibl.

Bydd angen dad-friffio'r tîm sy'n ymwneud ag esbonio'r sefyllfa i'r gynulleidfa.

Dros amser bydd y gynulleidfa'n ad-drefnu eu hunain a gobeithio'n dod i fan o dderbyn. Gall arwyddion cynulleidfa sy'n dechrau derbyn gynnwys y canlynol:

- Bydd y cyfrifoldeb am y drosedd yn cael ei gydnabod yn briodol.
- Derbynnir na fydd y clerig yn dychwelyd.
- Bydd rôl y clerig yn cael ei gweld yn fwy realistig.
- Bydd y clerig a droseddodd yn cael ei gofio am y pethau da a gyflawnodd yn ogystal â derbyn y camweddau a'r niwed a wnaeth.
- Ni fydd y diodeffwr yn cael y bai ond cydnabyddir bod angen cymorth arno (hyd yn oed

os nad yw'r person yn hysbys i'r gynulleidfa)

- Mae'r cyfathrebu o fewn y gynulleidfa yn agored, mae rolau a chyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n briodol.
- Mae angen gosod ffeithiau'r digwyddiad yn gadarn o fewn hanes a chof y plwyf fel ei fod yn cael ei dderbyn ac nad yw'n dod yn gyfrinach gan achosi problemau'n ddiweddarach.
- Mewn cynulleidfaedd cythryblus gallai datblygu hanes plwyf neu gronoleg fod yn fan cychwyn ar gyfer darganfod gwreiddiau anghydfod.
- Gall y gynulleidfa ddod i bwynt lle gall digwyddiad cymodi litwrgaidd helpu i atgyfnerthu'r cynnydd y mae pobl wedi'i wneud tuag at wella.

## Chwythu'r chwiban (adrodd cyfrinachol)

Rhaid i bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant neu oedolion sy'n wynebu risg, neu sy'n gweithio gyda nhw, fod â gweithdrefnau chwythu'r chwiban priodol, a diwylliant sy'n galluogi mynd i'r afael â phryderon a honiadau diogelu. Dylid bod ag ymwybyddiaeth benodol bod lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn hollbwysig. Bwriad chwythu'r chwiban fel rhan o'r gweithdrefnau diogelu yw annog a galluogi unrhyw un sydd â phryder difrifol i godi'r pryder hwnnw.

Gall pobl sy'n gweithio yn yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddeiliaid swyddi, gweithwyr neu wirfoddolwyr, ei chael hi'n anodd siarad a chodi eu pryderon oherwydd gallent deimlo eu bod yn bradychu eu cydweithwyr neu'r eglwys. Gallent hefyd ofni aflonyddu neu erledigaeth.

Diogelir y sawl sy'n chwythu'r chwiban gan y gyfraith rhag erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais ddilynol ar yr amod bod y mater dan sylw yn cael ei godi yn sgil pryder dilys. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi diogelwch cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr yn sgil datgelu pryderon difrifol penodol yn gyhoeddus. Mae'r polisi'n ymestyn yr amddiffyniad hwn i wirfoddolwyr.

## Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

Mae'n bwysig bod yr unigolion sy'n codi pryder yn rhoi eu henw i'r honiad ac nad ydynt yn ei godi'n ddiennw. Lle caiff pryderon eu mynegi'n ddiennw, byddant yn cael eu hystyried, ond maent yn llawer llai pwerus ac yn llawer anoddach i ymchwilio iddynt a'u profi. Gellir codi pryderon yn gyfrinachol. Ar yr adeg briodol, fodd bynnag, gellir cysylltu â'r chwythwr chwiban i ddod ymlaen fel tyst, er mwyn dod â'r mater i fwcl. Mae Swyddogion Diogelu'r Dalaith bob amser yn parchu cyfrinachedd unrhyw un sy'n codi pryder diogelu, ond nid yw bob amser yn bosibl gwarantu anhysbysrwydd. Er enghraifft, gallai'r person y codir pryder amdano wybod ei fod wedi rhannu gwybodaeth gydag un person yn unig neu mai dim ond un person a welodd ddigwyddiad.

## Mynegi pryder

Os oes gan unigolyn unrhyw bryderon bod rhywun o fewn yr eglwys yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ymddygiad sy'n groes i unrhyw ran o'r polisiâu diogelu hyn, dylent gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Os yw'r unigolyn yn teimlo na all gysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith, neu os yw'r honiad yn ymwneud â Swyddog Diogelu'r Dalaith, yna dylid gofyn am gyngor gan y Pennaeth Diogelu. Os yw'r pryder yn ymwneud â'r Pennaeth Diogelu, dylid hysbysu Ysgrifennydd y Dalaith.

Gellir codi pryderon ar lafar yn y lle cyntaf, ond dylid dilyn hyn yn ysgrifenedig gan fanylu ar hanes y pryder a rhoi cymaint o fanylion â phosibl gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Cynhara'n byd y mynegir y pryderon, hawsa'n byd fydd gweithredu.

## Sut y bydd yr Eglwys yn Ymateb

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ymrwymo i leihau unrhyw risg i'r unigolyn o godi pryder yn ddidwyll a bydd yn cefnogi unrhyw unigolyn sy'n gwneud hynny. Ni fydd yn goddef erledigaeth, bygythiadau, nac effaith negyddol ar unrhyw un sy'n codi pryder yn ddidwyll a bydd yn cymryd camau i atal hyn. Mae'n bosibl y gellir galw'r sawl sy'n chwythu'r chwiban i roi tystiolaeth mewn achosion troseddol neu ddisgyblu. Os felly, bydd yn cael cyngor am y weithdrefn ac yn derbyn unrhyw gymorth angenrheidiol y gallai fod ei angen arno.

Gwneir ymholiadau cychwynol i benderfynu a yw ymchwiliad yn briodol ac, os felly, pa ffurf y dylai ei chymryd.

Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, bydd y chwythwr chwiban yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

## Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi'n glir sut y dylid rheoli gwybodaeth bersonol. Anaml y mae'r gyfraith yn rhwystro datgelu gwybodaeth. Nid oes cyfyngiad yn y Ddeddf Diogelu Data nac yn unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n atal pryderon ynghylch unigolion rhag cael eu codi na'u rhannu rhwng asiantaethau er mwyn amddiffyn plant neu oedolion sy'n wynebu risg.

Mae sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag niwed sylweddol yn ogystal â'r gofyniad ehangach am ddiogelu a hyrwyddo lles yn dibynnu'n sylfaenol ar rannu gwybodaeth yn effeithiol, cydweithio a dealltwriaeth rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol.

## Rhannu gwybodaeth yn ddiogel

Er mwyn rhannu gwybodaeth gyfrinachol yn gyfreithlon ac yn ddiogel, rhaid cael sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth a phwrpas cyfreithlon ar gyfer gwneud hynny. Wrth benderfynu a ddylid rhannu gwybodaeth gyfrinachol ai peidio, dylid ystyried y canlynol:

- a oes rhwymedigaeth statudol i ddatgelu? Hynny yw, a yw datgelu yn ofynnol gan orchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall megis dyletswydd i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- a oes cydsyniad datganedig neu ymhlyg gan y personau dan sylw.
- a oes dyletswydd cyhoeddus tra phwysig wrth ddatgelu gwybodaeth megis lle mae plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn wynebu risg o niwed sylweddol?

Dylid ystyried arwyddocâd, neu arwyddocâd posibl y wybodaeth a gedwir. Rhaid i wybodaeth fod yn berthnasol i'r diben y mae'n cael ei rhannu ar ei gyfer a dim ond gyda'r ymarferwyr neu'r asiantaethau hynny y mae angen iddynt wybod y dylid ei rhannu.

Dylid bod yn agored ac yn onest ynglŷn â'r rhesymau pam mae angen rhannu gwybodaeth a pham mae angen cymryd camau penodol, oni bai bod gwneud hynny'n achosi pryder diogelu.

Dylid cael caniatâd i rannu gwybodaeth oni bai nad yw'n ddiogel neu'n bosibl gwneud hynny, neu y byddai hynny'n tanseilio'r ymdrech i atal neu ganfod trosedd.

Dylai gwybodaeth fod yn gywir, dylid ei chadw'n ddiogel a'i chadw am ddim mwy nag sydd angen.

Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylid rhannu gwybodaeth, dylid cysylltu â Swyddog Diogelu'r Dalaith i gael cyngor. Gweler Canllawiau Diogelu Data'r Eglwys yng Nghymru yn <https://www.churchinwales.org.uk/resources/privacy-statement> i gael rhagor o wybodaeth.

## Ymateb i'r cyfryngau

Mae honiadau o gam-drin gan glerigion neu weithwyr eglwys yn debygol o fod yn destun diddordeb yn y cyfryngau. Mewn unrhyw achos o gam-drin honedig lle gall achos fynd gerbron llys, mae'n hanfodol na roddir unrhyw wybodaeth a allai amharu ar ganlyniad unrhyw achos cyfreithiol. Mae angen i'r ffordd yr ymdrinnir â'r cyfryngau ystyried dymuniadau, anghenion a lles dioddefwyr, budd y cyhoedd a risgiau i eraill, gan gynnwys y troseddwr honedig neu'r troseddwr hysbys. Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu yn ymdrin â phob ymwneud â'r cyfryngau a dylid cysylltu ag ef neu hi ar unwaith beth bynnag os yw'r cyfryngau yn debygol o fod â diddordeb.